Arweiniad at

INSIWLEIDDIO

severn wye

Mae’r arweiniad hwn yn daith o’r gwaelod i’r top trwy insiwleiddiad eich tŷ. Awn â chi trwy wahanol fathau o insiwleiddiad, sut mae insiwleiddio gwahanol ofodau, a phethau pwysig i’w hystyried wrth insiwleiddio’ch cartref.

Insiwleiddio dy:

Llawr tudalen 4

Waliau tudalen 8

Croglofft tudalen 20

Insiwleiddio'ch llawr

Gall llawr gwaelod heb ei insiwleiddio golli hyd at 15% o wres adeilad. Gall trafferthu insiwleiddio'ch llawr arbed ynni, ostwng eich biliau, a helpu diogelu'r amgylchedd.

Mathau o lawr

Lloriau llofftydd
Nid oes ond angen insiwleiddio lloriau llofftydd eich tŷ os ydynt uwchlaw gofodau nad ydynt wedi'u twymo, fel garej, er enghraifft.

Lloriau gwaelod
Fel arfer mae lloriau gwaelod ynteu'n soled (slabiau concrit) neu'n grog (estyll pren wedi'u gosod ar ddistiau). Mae insiwleiddio llawr soled yn anos, ac felly'n ddrytach, nag insiwleiddio llawr pren.

Lloriau pren crog
Mae cartrefi hŷn yn debycach o fod â lloriau pren crog, lle mae estyll yn gorffwys ar ddistiau. Gan fod y llawer yn crogi uwch wagle, i bob diben, mae'r lloriau hyn yn tueddu i golli rhagor o wres. Gellir eu hinsiwleiddio. Fodd bynnag, trwy roi deunydd insiwleiddio yn y bylchau rhwng y distiau.

Gallir defnyddio amryw ddeunyddiau insiwleiddio at y gwaith hwn, gan gynnwys gwlân defaid, cywarch neu estyll insiwleiddio caled. Mae sut y'i gosodir yn dibynnu ar a oes mynediad oddi isod o seler neu islawr. Os felly, gellir ychwanegu'r insiwleiddiad o oddi isod a'i ddal â rhwydi sy'n cael eu styffylu i'r distiau. Onid oes mynediad o oddi isod, gellir codi'r estyll i ynysu o oddi uchod.

Dylid llenwi tyllau yn yr estyll (lle gallai pibellau a gwifrau fynd trwodd), yn ogystal ag o gwmpas yr ymylon a rhwng yr estyll, â mastig (deunydd asio wedi'i wneud o resin planhigion) er mwyn atal drafftiau.

Os yw'n bosibl y gallai ystafell gael ei gorlifo, ni ddylid ychwanegu haen atal lleithder o dan yr insiwleiddiad. Yn hytrach, gallwch ychwanegu deunydd atal drafftiau, a fydd yn caniatáu i'r dŵr lifo ymaith. Beth bynnag wnewch chi, peidiwch â chau briciau awyr yn eich waliau. Maen nhw'n hanfodol ar gyfer awyru'r gofod o dan eich llawr ac atal yr estyll rhag pydru.

Lloriau concrit soled

Bydd gan lawer o gartrefi (ond yn enwedig rhai newyddach) lawr gwaelod wedi'i wneud o goncrit soled. Gellir un ai insiwleiddio hwn pan fo angen llawr newydd, neu gellir gosod insiwleiddiad caled ar ei ben.

Os am lawr newydd, gellir gosod ewyn insiwleiddio caled uwchlaw neu islaw'r concrit. Os dewiswch osod yr insiwleiddiad islaw'r concrit, gall helpu rheoli'r tymheredd ac atal gordwymo mewn ystafelloedd sy'n wynebu'r de neu sydd â rhywun ynddynt am rannau helaeth o'r diwrnod. Os gosodwch yr insiwleiddiad uwchlaw'r concrit, bydd yr ystafell yn twymo'n gynt yn y bore.

Gallwch ddal i insiwleiddio llawr soled, hyd yn oed os nad oes angen un newydd. Gellir gosod insiwleiddiad caled ar ben y llawr gwreiddiol, gyda llawr sglodfwrdd ar ei ben. Bydd hyn yn codi lefel y llawr, felly rhaid i chi sicrhau torri mymryn o waelod y drysau i wneud lle iddo. Efallai y bydd rhaid symud bordau wal a socedi trydan hefyd.

Carpedi

Dewis arall neu ychwanegol at y dulliau a awgrymir uchod yw gosod haen drwchus o isgarped o dan y carped presennol. Bydd hynny'n gwella ei allu i insiwleiddio.

Atal drafftiau

Gall gwres ddianc trwy'r bylchau lleiaf, felly mae'n werth llenwi'r bwlch rhwng eich llawr a'ch bordau wal. Gallwch ddefnyddio selydd – mae'n ateb syml a rhad.

Pethau i'w hystyried wrth insiwleiddio'ch llawr

Rheoliadau adeiladu

Os ydych am osod llawr newydd, bydd angen i'r gwaith gydymffurfio â rheoliadau adeiladau'r ardal lle'r ydych yn byw. Fel arfer bydd eich gosodwr yn trefnu hyn i chi, ond os ydych yn gwneud y gwaith eich hun, mae'n bwysig sicrhau eich bod chi'n cydymffurfio.

Insiwleiddio'ch waliau

Os nad yw eich cartref wedi'i insiwleiddio, gall cymaint â thraean o'r holl wres a gollir o'r tŷ gael ei golli trwy'r waliau. Mae'n bwysig gwybod o ba fath o waliau yr adeiladwyd eich eiddo, a ydynt wedi'u hinsiwleiddio a sut y gallwch drefnu gwneud hynny.

Nid yw adeiladwaith pob wal yr un fath

Gellir maddau i chi am dybio, yn yr unfed ganrif ar hugain, bod y mwyafrif o adeiladu wedi'u llunio'r un fath. Ond gan ddibynnu ar bryd y codwyd eich eiddo'n wreiddiol, bydd adeiladwaith y waliau'n wahanol.

Os codwyd eich eiddo cyn 1930, mae'n debyg o fod o waliau briciau soled heb geudod. Os wedi 1930, mae'n debyg fod y waliau o ddwy haen o friciau neu flociau, gyda cheudod rhyngddynt.

Fel arfer, gallwch ddweud a oes gan eich eiddo waliau soled neu geudod trwy edrych ar batrwm y briciau y tu mas. Os gallwch weld ochrau hirion a byrion briciau am yn ail â'i gilydd, mae'n debyg fod y waliau'n soled. Os dim ond ochrai hirion y briciau, mae'n debyg fod gennych wal geudod.

Os yw eich waliau wedi'u rendro gall fod yn anos gweld pa fath sydd gennych. Mae trwch yn ddangosydd da yma. Edrychwch ar ffenestr neu ddrws un o'ch waliau allanol. Os yw wal friciau'n fwy na 260mm o drwch, mae'n debyg ei bod yn wal geudod.

Mae rhai tai nad ydynt wedi'u gwneud o friciau o gwbl, ac yn llai traddodiadol eu hadeiladwaith. Os yw eich waliau o bren, metel neu goncrit, bydd angen i chi insiwleiddio fel pe baen nhw'n soled. Efallai y bydd angen i chi gael gosodwr arbenigol i fwrw golwg a rhoi cyngor i chi ar y ffordd orau ymlaen.

Mae gennych chi waliau ceudod, felly

Nid yw insiwleiddiad wal ceudod yn beth newydd, felly os oes gennych waliau ceudod efallai eu bod wedi'u hinsiwleiddio eisoes. Os felly, efallai y gallwch weld y tyllau a wnaed trwy'r morter allanol ar bellterau rheolaidd, a fyddent wedi'u llenwi, wedyn, ag insiwleiddiad. Onid ydych yn sicr, gallech holi adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol, neu ofyn i osodwr cofrestredig gael golwg. Bydd yn agor twll bychan trwy'r wal i gael golwg y tu mewn i'r ceudod.

Os adeiladwyd eich tŷ yn yr ugain mlynedd neu ragor diwethaf, mae bron yn sicr o fod wedi'i insiwleiddio eisoes. Os nad yw eich waliau ceudod wedi'u hinsiwleiddio, gellir gwneud hyn trwy bwmpio insiwleiddiad i mewn i'r ceudod sydd yno. Nid yw hwn yn waith y gallwch chi eich hun ei wneud: bydd arnoch angen gosodwr proffesiynol i'ch cynghori ac i wneud y gwaith.

Beth yw'r dewisiadau insiwleiddio?

Mae tri deunydd a ddefnyddir yn gyffredin i insiwleiddio waliau ceudod, a bydd yr un a ddewisir yn dibynnu'n aml ar beth sydd orau gan y gosodwr a ddewiswyd, ac a oes unrhyw ystyriaethau adeileddol neu amgylcheddol ynghylch eich eiddo sy'n gwneud y naill ddeunydd yn addasach na'r llall.

Ffibrau mwynol
Mae hwn yn ddeunydd fel wadin wedi'i wneud o garreg folcanig neu wydr wedi'i nyddu. Mae wedi'i ddefnyddio'n eang ers y 1960au.

Gleiniau polystyren ymestynedig (PY)
Mae'r system hon yn defnyddio gleiniau bychain tebyg i'r rhai a gewch chi mewn bag ffa. Fe'u cyfunir nhw, fel arfer, â glud ar gyfer dal y gleiniau yn eu lle.

Ewyn polywrethan (PẄ)
Os oes gan eich tŷ geudodau culion neu anunion, neu'i fod mewn man agored, neu ym mherygl ei orlifo, efallai bydd modd llenwi'r ceudod ag ewyn polywrethan. Mae'n ddrytach na'r deunyddiau uchod, ond yn insiwleiddiad hynod effeithiol. Daw ewyn PẄ yn gynhyrchyn dwy ran a gymysgir ar y safle ac y sy'n ehangu pan bwmpir ef i'r ceudod, i ffurfio insiwleiddiad ewyn caled. Gall helpu sefydlogi adeiladwaith wal, a diogelu'r waliau rhag tywydd garw, fel glaw ysgubol

Pethau i'w hystyried wrth i chi insiwleiddio waliau ceudod

Costau ac arbedion
Gall wal geudod heb ei insiwleiddio ganiatáu i hyd at 35% o ynni gwres eich eiddo ddianc, felly mae insiwleiddio'n debyg o arbed arian i chi.

Leithder
Os yw lleithder yn codi i'ch eiddo neu'n ymdreiddio iddo, bydd angen i chi ddatrys hynny cyn y gellir gosod unrhyw insiwleiddiad.

Anwedd
Gall diffyg insiwleiddiad gyfrannu'n fawr at anwedd, felly gallai insiwleiddiad wal ceudod fod o gymorth i ddatrys problem bresennol. Gwyliwch rhag cau unrhyw awyru presennol, fodd bynnag, gan fod llif awyr da yn hanfodol ar gyfer lleihau anwedd.

Sicrhewch fod eich waliau'n addas
Gall rhai waliau fod yn anaddas ar gyfer insiwleiddiad wal ceudod: er enghraifft, os bernir nad yw'r morter yn ddigon cryf i wrthsefyll pwysau pwmpio'r deunydd insiwleiddio i mewn. Neu efallai fod yr eiddo o fath lle mae'r ceudod yn rhy faint, neu wedi'i gau mewn rhyw ffordd. Mae yna fodd datrys y problemau hyn, fel arfer, fel atgyfnerthu'r wal, defnyddio ewyn PẄ neu ddefnyddio dull insiwleiddio wal soled (gweler isod).

Tawelwch meddwl

Mae'r Asiantaeth Gwarantu Insiwleiddiad Ceudod (AGIC) yn gorff annibynnol eu'n gwarantu insiwleiddiad wal ceudod am 25 mlynedd, gan gynnwys deunyddiau ac ansawdd gwaith pan wneir yr insiwleiddio gan osodwr cymeradwy. Gofynnwch i'r gosodwr rydych wedi'i ddewis a fydd eich insiwleiddiad wedi'i gynnwys yn y warant hon, neu ewch at wefan yr Asiantaeth Gwarantu Insiwleiddiad Ceudod ciga.co.uk.

Argymhellem ddefnyddio gosodwr sy'n aelod o'r Gymdeithas Insiwleiddiad Genedlaethol (CIC), hefyd. Mae unrhyw gwmni sydd wedi'i gofrestru gyda CIC wedi cytuno i ganlyn Cod Ymarfer Proffesiynol sydd wedi'i gynllunio i roi i'r cyhoedd y raddfa uchaf bosibl o wasanaeth cwsmer, a bod y gwaith at y safon gorau. Gweler gwefan y Gymdeithas Insiwleiddiad Genedlaethol am ragor nationalinsulationassociation.org.uk.

Mae gennych waliau soled, felly

Gellir insiwleiddio wal soled o'r tu mewn neu'r tu mas, gan ddibynnu ar beth sydd orau ar gyfer eich eiddo.

Mae insiwleiddiad wal fewnol yn golygu gosod bordau insiwleiddio caled at y wal bresennol, neu godi pared a llenwi'r bwlch gyda deunydd insiwleiddio.

Mae insiwleiddiad wal allanol yn golygu gosod haen o insiwleiddiad ar y wal allanol, yna ei gorchuddio â math arbennig o rendr neu gladin. Mae modd defnyddio amryw fathau orffeniad ag insiwleiddiad allanol.

Trafodwn rai o fanteision ac anfanteision pob un system insiwleiddio, i'ch helpu i benderfynu pa ddull sydd orau ar gyfer eich eiddo.

Insiwleiddiad wal fewnol

Manteision

- Yn rhatach ei osod, fel arfer, nag insiwleiddiad wal allanol.
- Gellir ei wneud fesul ystafell er mwyn talu tros gyfnod hwy.

Anfanteision

- Bydd arwynebedd lloriau ystafelloedd yn crebachu ychydig. Trwch yr insiwleiddiad yw tua 100mm fel arfer)
- Mae'r gosod yn tarfu. Rhaid tynnu ac ailosod bordau wal, fframiau drysau a gosodiadau allanol.
- Gall fod yn anodd gosod eitemau trymach wrth waliau mewnol (fel yn achos plastrfwrdd), ond gallwch ddefnyddio offer arbennig i wneud hyn yn haws.

Insiwleiddiad wal allanol

Manteision

- Gellir ei osod heb darfu ar yr aelwyd.
- Ni fydd yn lleihau arwynebedd llawr eich eiddo.
- Bydd gwell olwg ar eich waliau allanol.
- Bydd y waliau'n gwrthsefyll y tywydd yn well, ac yn gadael llai o dwrw trwodd.
- Bydd yn llenwi craciau a bylchau yn y gwaith brics, gan leihau drafftiau
- Mae'n diogelu'r gwaith brics. Gan gynyddu hyd oes eich waliau.
- Mae'n lleihau anwedd ar waliau mewnol, sydd o fudd i atal lleithder.

Anfanteision

- Yn ddrytach, fel arfer, nag insiwleiddiad wal fewnol.
- Efallai y bydd arnoch angen caniatâd cynllunio, felly rhaid i chi dreulio amser yn holi'r awdurdod lleol.
- Bydd arnoch angen mynediad rhwydd at y waliau allanol.
- Os yw adeiladwaith eich waliau allanol yn anniogel, ac nad oes modd eu trwsio, nid yw'n ddewis da.
- Bydd yn newid gwedd allanol yr adeilad, felly ni fydd yn addas ar gyfer rhai mathau o eiddo (bythynnod carreg, er enghraifft).

Pethau i'w hystyried wrth i chi insiwleiddio waliau soled

Costau ac Arbedion
Bydd wal nad yw wedi'i hinsiwleiddio yn caniatáu i tua 45% o wres adeilad ddianc, felly gallai insiwleiddio eich waliau'n iawn arbed arian.

Un ffordd o gadw costau'r gwaith hwn i lawr yw ei wneud ar yr un pryd â gwelliannau eraill i'ch cartref, neu dalu tros gyfnod hwy trwy insiwleiddio eich cartref fesul dipyn.

Gwlybaniaeth ac awyru
Fel arfer, mae adeiladau waliau soled yn rhyfeddol o dda wrth ganiatáu i anwedd dŵr symud a gwasgaru, gan fod drafftiau'n gyffredin a dŵr yn medru symud trwy'r garreg neu'r gwaith briciau ei hun. Os gosodwch insiwleiddiad wal soled, efallai y byddwch yn wynebu gorfod delio â gormod o ddŵr am y tro cyntaf.

Gallwch osgoi'r problemau hyn trwy ddefnyddio deunyddiau insiwleiddio sy'n medru anadlu, neu adael anwedd drwodd. Bydd y rhain yn caniatáu i awyr ac anwedd dŵr fynd drwy'r insiwleiddiad, gan helpu atal cynnydd gwlybaniaeth. Onid yw hyn yn bosibl, dylech ofyn i osodwr proffesiynol ddatblygu strategaeth rheoli gwlybaniaeth benodol ar gyfer eich eiddo.

Lleithder
Pa un ai y dewiswch insiwleiddiad allanol neu fewnol, bydd angen i chi sicrhau nad yw eich eiddo'n dioddef gan unrhyw leithder sy'n codi neu'n ymdreiddio. Os gosodwch insiwleiddiad allanol, bydd gennych haen newydd a all wrthsefyll y tywydd, ac a ddylai ddiogelu eich waliau rhag lleithder treiddiol: ond byddai angen cael gwared ar unrhyw fath o leithder codi neu dreiddiol cyn y gall gwaith ddechrau.

Cynllunio
Gallai insiwleiddiad wal allanol newid ymddangosiad eich eiddo yn o fawr, felly syniad da yw gweld a oes arnoch angen unrhyw fath o ganiatâd cynllunio. Bydd hyn yn neilltuol bwysig os ydych yn byw mewn ardal gadwraeth neu os oes cyfyngiadau cynllunio eraill ar eich eiddo.

Gorffeniadau
Os ydych yn gosod insiwleiddiad wal allanol bydd angen i unrhyw beth sydd wedi'i osod ar y tu mas i'r eiddo (o bibellau i fasgedi crog) gael ei dynnu a'i ailosod wedi cwblhau'r gwaith. Efallai y bydd angen ymestyn siliau'r ffenestri a bargod y to er mwyn dygymod â thrwch newydd y waliau. Yn gyffelyb, os ydych yn gosod insiwleiddiad mewnol, bydd angen tynnu gosodiadau fel rheiddiaduron, switshis goleuadau a byrddau wal, a'u hailosod wrth wyneb newydd y wal.

Tawelwch meddwl
Cofiwch ofyn i'ch gosodwr a yw'r insiwleiddiad tan warant yr Asiantaeth Gwarantu Insiwleiddiad Wal Soled. Mae'r Asiantaeth Gwarantu Insiwleiddiad Wal Soled (AGIWS) yn gorff annibynnol sy'n darparu gwarant 25 mlynedd ar insiwleiddiad wal soled, gan gynnwys deunyddiau ac ansawdd gwaith pan wneir y gwaith gan osodwr cymeradwy swiga.co.uk.

Insiwleiddio'ch croglofft

Un o'r gwelliannau arbed ynni hawsaf a mwyaf cost effeithiol y gallwch ei wneud yn eich cartref yw insiwleiddio'ch croglofft. Yn yr adran hon edrychwn ar sut ellir defnyddio insiwleiddiad mewn gwahanol fathau o groglofftydd, sut i'w wneud eich hun, a rhai pethau y dylech eu hystyried.

Dod i nabod eich to

Mae gwres yn codi, felly heb insiwleiddio'r groglofft gellir colli hyd at 25% o'r gwres sy'n dianc o'ch cartref drwy'r to! Yn y mwyafrif o gartrefi mae insiwleiddio'r groglofft yn waith rhwydd a chyflym, a bydd o gymorth i wneud eich cartref yn dwymach ac yn fwy cysurus.

Bydd pa mor rhwydd yw insiwleiddio'ch croglofft yn dibynnu i raddau ar ba fath o do sydd gennych. Mae rhai mathau'n haws nag eraill i'w hinsiwleiddio, a bydd eich arddull yn dibynnu ar sut ddefnyddiwch eich croglofft.

Os oes gennych do ar oleddf â chroglofft nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ofod byw ynddo, mae'n gymharol rwydd gosod insiwleiddiad a gallwch wneud hynny eich hun, yn aml. Mae toeau gwastad yn llawer anos a drytach eu hinsiwleiddio, a rhaid cael gosodwr proffesiynol i wneud y math hwn o waith.

Lle defnyddir y groglofft i fyw ynddo, gellir gosod bordau insiwleiddiad caled rhwng y distiau cyn eu gorchuddio gyda plastrfwrdd. Gellir gosod hwn ar adeg troi'r groglofft yn ofod byw ynddo, neu, os digwyddodd hynny eisoes, gallech dynnu'r nenfwd presennol, ychwanegu insiwleiddiad, ac yna gosod nenfwd newydd.

Neu os oes gennych ddigon o ofod uwchben, gallech ychwanegu plastrfwrdd insiwleiddiol at y nenfwd presennol, neu insiwleiddio rhwng y trawstiau yn allanol y tro nesaf y mae angen to newydd.

Mathau o insiwleiddiad

Mae sawl ffordd y gallwch insiwleiddio'ch croglofft, gan ddibynnu ar ba fath o ofod to sydd gennych. Gallwch wneud rhai o'r rhain eich hun, ond mae angen gosod eraill yn broffesiynol.

Insiwleiddiad blanced

Prynir hwn yn rholiau a daenir, wedyn, fel blanced gynnes rhwng distiau'ch to a throstynt. Ffibr mwynol (neu wlân carreg) yw'r deunydd insiwleiddiad blanced mwyaf poblogaidd, a dylid gosod dyfnder o 270mm ohono. Os penderfynwch ddefnyddio'r math hwn o insiwleiddiad, a'ch bod chi am ei osod eich hun, cofiwch y bydd angen i chi wisgo menig a mwgwd gydol yr amser, gan y gal y ffibrau beri llid y croen a'r ysgyfaint.

Mae angen llawer o ynni i gynhyrchu gwlân ffibr carreg, felly nid yw mor gyfeillgar i'r amgylchedd ag y gall ymddangos ar yr olwg gyntaf. Mae llawer o ddewisiadau amgen os ydych yn ystyried cynaliadwyedd: gwlân defaid, poteli plastig wedi'u hailgylchu, a denim wedi'i ailgylchu.

Insiwleiddiad bord galed

Daw'r math hwn o ddeunydd insiwleiddio'n fordau caled a osodir rhwng ac ar draws distiau'ch to. Gwneir y math hwn o insiwleiddiad o ddeunyddiau fel polystyren a pholywrethan, fel arfer, ac mae'n hawdd ei dorri i'r maint a'r siâp angenrheidiol. Mae'r math hwn o insiwleiddiad yn ddrytach nag insiwleiddiad blanced, fel arfer, ond mae iddo rai manteision:

- Gallwch storio pethau ar ben dalen o insiwleiddiad bord galed heb effeithio ar nodweddion insiwleiddiol y deunydd.
- Nid yw gwlybaniaeth nac anwedd dŵr yn effeithio ar insiwleiddiad bord galed.

Insiwleiddiad llac

Tywelltir neu chwythir insiwleiddiad llac i mewn i'r groglofft er mwyn creu haen ddofn, unon. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir fel arfer yn cynnwys ewyn polywrethan, ffibr mwynol a phapurau newydd wedi'u hailgylchu. Gall y dull hwn fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer croglofftydd anodd mynd iddynt, er nad yw'n rhywbeth y gallech chi eich hun ei wneud.

Os ydych yn storio yn eich llofft, mae'n werth cofio mai'r hyn sy'n gwneud insiwleiddio blanced a llac mor effeithiol yw eu bod yn dal awyr rhwng eu haenau. Golyga hyn y bydd llwytho holl drysorau a blychau storio eich teulu ar ben yr insiwleiddiad yn gwasgu peth o'r awyr mas, gan ei wneud yn llai effeithiol.

Un ffordd osgoi hyn yw gosod bordau dros ben eich insiwleiddiad er mwyn creu llawr soled, Gallwch fyrddio'r cyfan oll neu ddim ond rhan fechan, yn ôl faint o ofod storio y mae arnoch ei angen. Ffordd hawdd o wneud hyn yw gosod pyst insiwleiddiad croglofft er mwyn codi'r bordau uwchlaw'r insiwleiddiad. Maen nhw'n gweithio dipyn fel y coesau o dan y pier glan môr, gan ddal y bordau uwchlaw'r insiwleiddiad i ganiatáu iddo wneud ei waith. Mae hyn yn ddull cost effeithiol a syml o greu gosod storio yn eich croglofft, heb amharu ar effeithiolrwydd yr insiwleiddiad.

Toeau gwastad

Os yw eich to gwastad yn newydd neu'n gymharol gyfoes, mae'n debyg o fod wedi'i insiwleiddio eisoes. Os oes gan eich eiddo do gwastad hŷn, mae bron yn sicr y bydd yn well o'i insiwleiddio. Oherwydd pris mawr a chymhlethdod gosod insiwleiddiad to gwastad, mae llawer o bobl yn dewis insiwleiddio'r math hwn o do pan fo angen ei drwsio neu gael un newydd. Mewn gwirionedd, os oes angen to gwastad newydd, mae'n rhaid ei insiwleiddio nawr er mwyn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu.

Mathau o insiwleiddiad to gwastad

Mae dwy brif ffordd insiwleiddio to gwastad. Gallwch un ai insiwleiddio o oddi uchod neu o oddi isod. Os gosodir yr insiwleiddiad uwchlaw'r to, mae'r to ei hun yn aros yn dwym (insiwleiddiad dec twym). Os gosodir yr insiwleiddiad islaw'r to, bydd y to ei hun yn oed (insiwleiddiad dec oer).

Mae i insiwleiddiad dec twym sawl mantais. Mae'r dull yn atal posibilrwydd ffurfio anwedd ar ochr isaf y dec, yn dileu lleithder ac ni fydd yn amharu ar y gofod byw o dan y to. Yn wahanol i'r dull dec oer, nid yw trwch yr insiwleiddiad y gallwch ei osod wedi'i gyfyngu gan ddyfnder y trawstiau neu ddistiau pren.

Weithiau mae angen insiwleiddiad dec oer o dan amgylchiadau neilltuol, gan ddibynnu ar wneuthuriad y to. Os dewiswch y dull hwn, mae'n bwysig sicrhau bod digon o awyriad er mwyn lleihau perygl anwedd, gan fod insiwleiddiad dec oer yn aml yn cael problemau yn hinsawdd laith y DU, lle mae'n anodd cael digon o awyriad.

Os ydych am ddewis 'gwyrdd', gallech ystyried to byw. Mantais y math hwn o do yw creu insiwleiddiad ychwanegol gan hyrwyddo bioamrywiaeth ar yr un pryd. Mae o'n peri i doeau gwastad anolygus edrych yn well, hefyd! Mae gosodwyr sy'n arbenigo yn adeiladu toeau byw. Gallwch ganfod rhagor yn livingroofs.org.

Gosod

Os ydych yn o lew o heini a bod mynediad yn ddiogel ac yn rhwydd, mae insiwleiddio'ch croglofft yn rhywbeth y gallech chi eich hun ei wneud er mwyn arbed arian.

Os oes problemau gyda lleithder, fodd bynnag, neu fod angen trefn insiwleiddio fwy cymhleth, dylid defnyddio gosodwr proffesiynol. Os ydych yn amau, holwch gwmni gosod proffesiynol cyn prynu insiwleiddiad neu wneud gwaith eich hun.

Insiwleiddio eich croglofft eich hun

Paratoi

- ☐ Gwagiwch cymaint ar eich croglofft ag y gallwch er mwyn rhoi digon o le eang, diogel i weithio ynddo. Symudwch unrhyw hwn fordau storio a chwiliwch am fywyd gwyllt. Gall anifeiliaid fel ystlumod, adar, wiwerod a chacwn oll achosi problemau posibl ar gyfer croglofftydd. Ceisiwch gyngor ar adran rheoli plâu cyn mentro eu symud, a chofiwch y bydd rhai rhywogaethau wedi'u diogelu gan y gyfraith.
- ☐ Gall ffibrau insiwleiddiad achosi llid y croen a'r ysgyfaint, felly sicrhewch eich bod yn gwisgo oferôls neu hen ddillad, mwgwd llwch, menig a gorchudd diogelu'r llygaid os ydych yn defnyddio insiwleiddiad ffibr.
- ☐ Sicrhewch fod gennych ddigon o olau i fedru gweithio.
- ☐ Gosodwch estyllod ar draws y distiau er mwyn medru cerdded yn ddiogel, a gofalwch beidio â throedio'r nenfwd rhwng y distiau.
- ☐ Peidiwch byth â rhwygo insiwleiddiad blanced, gan fod hynny'n rhyddhau rhagor o ffibrau. Torrwch ef â chyllell finiog, yn hytrach.
- ☐ Clustnodwch beryglon dichonol, fel ceblau trydan, pibellau dŵr a bordau rhydd.
- ☐ Os defnyddir ysgol, sicrhewch ei osod yn sad neu fod rhywun arall yn ei dal.
- ☐ Peidiwch â gosod insiwleiddiad ar ben ceblau sydd yno'n barod, rhag iddynt ordwymo. Dylid codi ceblau uwchben yr insiwleiddiad.
- ☐ Gall rholiau o insiwleiddiad fod yn drwm. Os ydych yn defnyddio rhai mwy, un ai gofynnwch i rywun eu codi nhw i fyny atoch, neu torrwch nhw'n llai cyn mynd â nhw i'r groglofft.

Cesglwch eich offer ynghyd:

- [ ] Rholiau / bordau Insiwleiddiad
- [ ] Insiwleiddiad pibellau (efallai fod gennych bibellau yn eich croglofft y byddai'n dda rhoi dipyn rhagor o insiwleiddiad arnynt tra eich bod chi lan yna)
- [ ] Gorchudd tanc dŵr oer (fel uchod, os oes gennych danc dŵr yn eich croglofft gallech ei insiwleiddio â gorchudd fel rhan o'r gwaith hwn)
- [ ] Tâp glynu sy'n gwrthsefyll dŵr
- [ ] Dillad amddiffynnol, padiau pen glin, gorchudd llygaid, mwgwd a menig (os oes eu hangen)
- [ ] Siswrn neu gyllell finiog
- [ ] Golau disglair
- [ ] Tâp mesur
- [ ] Bordau neu estyllod pren i weithio arnynt

Nawr rydych chi'n barod, dewch inni insiwleiddio!

1) Defnyddiwch yr estyllod i greu ardal storio gwastad ar gyfer ychydig roliau o insiwleiddiad, yn agos at ble bynnag rydych chi'n gweithio. Gwell dechrau yn y gornel bellaf o fynedfa'r groglofft a gweithio eich ffordd yn ôl ati.

2) Gwnewch un neu ragor o 'fordau cerdded', digon hir i fynd dros dri neu bedwar o ddistiau a digon llydan i chi benlinio arni.

3) Defnyddiwch fordau cerdded wedi eu gosod ar draws y distiau i ddarparu lle diogel i chi benlinio wrth i chi weithio. Dechreuwch trwy daenu'r insiwleiddiad yn y gornel bellach o fynedfa'r groglofft. Peidiwch â gwthio'r insiwleiddiad i mewn i'r bondo: gadewch o leiaf 25mm (1 fodfedd) o fwlch awyr. Bydd hyn yn darparu awyriad ac yn atal crynhoad anwedd. Neu gallwch ddefnyddio tyllau neu letwadau awyru lle mae'r insiwleiddiad yn cyrraedd y bondo.

4) Dadrowliwch yr insiwleiddiad rhwng y distiau. Onid yw un rholyn yn ddigon i gyrraedd yr ochr draw, dechreuwch rolyn newydd, gan sicrhau bod yr ymylon yn cydgyffwrdd. Pan gyrhaeddwch groeslath, torrwch yr insiwleiddiad yn unol â'r groeslath. Dechreuwch eto ar yr ochr draw, gan weithio i mewn o'r bondo.

5) Wedi dadrowlio eich hyd cyntaf, pwyswch yr insiwleiddiad i lawr ychydig er mwyn atal symudiad awyr oddi tano, ond peidiwch â'i wasgu gormod gan fydd hynny'n ei wneud yn llai effeithiol.

6) Gwnewch hyn drachefn hyd nes i chi orchuddio'r groglofft gyfan. Ym mannau culach, torrwch yr insiwleiddiad i'r lled cywir a gosodwch ef rhwng y distiau yn yr un modd.

7) Wedi i chi osod yr insiwleiddiad rhwng eich distiau, dadrowliwch ail haen o insiwleiddiad (i gyrraedd y trwch o 270mm a argymhellir) a gosodwch hi'n groes i'r haen gyntaf. Gallwch ddefnyddio rholiau lletach os dymunwch gyflymu'r gwaith. Cofiwch, mae cerdded yn y groglofft pan nad oes modd gweld eich trawstiau yn beryglus. Gorchuddiwch nhw yn y rhannau na fyddwch byth yn cerdded arnynt, ond nid fel arall. Neu gallwch osod insiwleiddiad bord galed, neu orchuddio eich insiwleiddiad blanced gyda bordau i greu llawr soled.

8) Insiwleiddiwch hatsh eich croglofft ag un ai insiwleiddiad dalen galed neu damaid o insiwleiddiad blanced wedi'i gau mewn polythen: bydd deunydd lapio un o'r rholiau insiwleiddiad ei hun yn gwneud y tro. Gellir ei gadw yn ei le â hoelion pen llydan neu lud. Peidiwch ag anghofio gosod deunydd atal drafftiau o gwmpas hatsh y groglofft, hefyd.

Awgrymiadau ychwanegol:

- Lle bo ceblau'n croesi'r distiau, gallwch dorri'r blanced â chyllell ac asio'r ddau ben at ei gilydd o dan y rhwystr. Cadwch geblau trydan uwchben yr insiwleiddiad ond gofalwch beisio â gwthio ceblau o'r ffordd.

- Os oes gennych danc dŵr oer, peidiwch â rhoi insiwleiddiad oddi tano. Gosodwch orchudd tanc dŵr oer amdano, yna rhowch yr insiwleiddiad lan at ochrau'r tanc, gan adael iddo fynd ychydig dros orchudd y tanc. Bydd hyn yn caniatáu i wres o'ch cartref gyrraedd y tanc a'i atal rhag rhewi.

- Os oes gennych bibellau dŵr yn eich croglofft, efallai y gallwch eu hinsiwleiddio trwy osod haen o insiwleiddiad trostynt. Neu gallwch ddefnyddio insiwleiddiad neu ynysydd pibellau, gan ei ddal yn ei le â chlymau ceblau neu dâp gludiog.

- Lle gosodir ffaniau tynnu awyr neu oleuadau gwrthsoddedig drwy'r nenfwd i mewn i ofod y groglofft, byddai angen, fel arfer, i chi docio'r blanced, gan adael bwlch o 75mm (o leiaf) o gwmpas y gosodiad i'w arbed rhag mynd yn boeth. Neu gallech osod capiau croglofft arbennig. Gwneir y rhain o ddeunydd ffibr caled sy'n caniatáu i'r gosodiadau hyn gael eu gorchuddio gan insiwleiddiad llofft heb ordwymo.

Pethau i'w hystyried wrth insiwleiddio'ch croglofft

Oerfel

Pan fydd wedi'i insiwleiddio, bydd eich croglofft yn oer iawn. Fel y disgrifiwyd uchod, os oes gennych danc dŵr neu bibellau dŵr yn eich croglofft, dylid eu hinsiwleiddio i'w hatal rhag rhewi mewn tywydd oed iawn.

Anwedd

Gall awyr twym, llaith yn codi o'r ystafelloedd islaw achosi anwedd. Bydd insiwleiddiad yn lleihau hyn i'r eithaf, ond dylech wylio rhag bwlch a all adael yr awyr hwn i mewn i'r groglofft, fel o boptu'r hatsh neu trwy dyllau golau gwrthsoddedig neu bibellau. Bydd sicrhau awyru digonol yn lleihau problemau anwedd yn fawr, hefyd.

Peidiwch ag anghofio hatsh eich llofft

Bydd insiwleiddio hatsh eich llofft yn cynyddu effeithiolrwydd yr insiwleiddiad ac o gymorth i atal anwedd rhag ffurfio yng ngofod eich croglofft. Mae insiwleiddiad polystyren neu ddalen galed arall yn dda ar gyfer hyn.

Awyru

Mae toeau wedi'u hawyru yn y bondo, fel arfer, ond bydd gosod haen drwchus o insiwleiddiad yn ei gwneud yn anos cynnal llif da o awyr, a gallai beri bod angen awyru ychwanegol. Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu rhagor o dyllau awyr yn y bondo, neu osod tyllau teils crib. Gallai rhai cwmnïau osod lletwadau plastig neu ewyn i mewn i ffelt y to, hefyd.

Drafftiau

Os oes gormod o ddrafftiau yn eich llofft, efallai na fydd insiwleiddiad llac nac insiwleiddiad ffibr chwyth yn addas, gan fod perygl chwythu'r deunydd insiwleiddio o gwmpas y lle a ffurfio lluwchfeydd. Bydd hynny'n golygu nad yw gorchudd insiwleiddiad y groglofft yn union.

Insiwleiddio'r trawstiau

Er bod modd insiwleiddio trawstiau'ch llofft, ni ddylid ei wneud, yn gyffredinol, ond lle mae ystafell breswyliadwy yn y to eisoes, neu os ydych yn bwriadu addasu gofod y to. Fel arall, dylech ynysu rhwng y distiau er mwyn lleihau i'r eithaf maint y gofod yn eich tŷ sydd angen ei dwymo. Os insiwleiddiwch y trawstiau, bydd eich system wresogi yn dal i geisio twymo'ch croglofft, fel pe bai'n ystafell ychwanegol. Mae insiwleiddio distiau'r nenfwd yn cau'r gwres mas o'r groglofft, gan leihau gwastraff ynni a cholli gwres.

Canfod gosodwr

Gall canfod rhywun iawn i wneud gwaith mawr ar eich cartref fod yn gryn her. Er mwyn helpu perchnogion eiddo i benderfynu'n gywir, mae gennym gronfa wybodaeth sefydledig o osodwyr lleol cymwys. Er mwyn dechrau, ymwelwch ag www.linktoenergy.org.uk a theipiwch eich cod post neu'ch tref.

Mae'r arweiniad hwn yn daith o'r gwaelod i'r top trwy insiwleiddiad eich tŷ. Awn â chi trwy wahanol fathau o insiwleiddiad, sut mae insiwleiddio gwahanol ofodau, a phethau pwysig i'w hystyried wrth insiwleiddio'ch cartref.

Fersiynau hygyrch:

01452 835060

severnwye.org.uk

@Severn_Wye

severn wye

Mae Asiantaeth Ynni Severn Wye yn gwmni di-elw (rhif 03830608) ac elusen gofrestredig (rhif 1083812) sy'n gweithredu'n bennaf ledled Cymru a'r siroedd ar y gororau yn Lloegr, gan gefnogi cymunedau, trigolion a busnesau i greu dyfodol carbon isel cynaliadwy, fforddiadwy.

Hawlfraint © 2022 Asiantaeth Ynni Severn Wye